

a Derek a'r teulu cyfan yn eu colled. Roedd colli merch a mab yng nghyfraith, Vivienne ac Evan Thomas yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn ergyd fawr i Mrs Roberts heb os.

Mr Gwynfor Jones

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Gillian Jones ac Aled, Llyr a Dewi, 19 Stryd Fawr, Llanberis yn y brofedigaeth fawr o gollu priod a thad, Gwynfor Jones, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd, yn 66 mlwydd oed ar Awst 30. Cydymdeimlwn hefyd â phlant hŷn Gwynfor, Dylan, Gwenda, Tecwyn a Mair. A chydymdeimlwn â Mrs Rhiannon Evans, mam Gillian, yn ei cholled hithau. Roedd Gwynfor wedi bod yn wael ers sawl blwyddyn, ond bu farw yn annisgwyl o sydyn. Roedd y gwasanaeth angladd yn Capel Coch ddydd Iau diwethaf, Medi 7 yng ngofal y Gweinidog. Cymerwyd rhan gan Andrew Settatee, a oedd yn ffrind i'r teulu trwy ei waith gyda Chynllun Efe yn Capel Coch a CIC. Mrs Falmai Pritchard oedd yr organydd. Gweddiwn dros y teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Cyfarfod Chwarter

Bydd y Parchg Ddr Rhodri Glyn, Llansannan yn pregethu yng Nghyfarfod Chwarter yr Annibynwyr ym Mangor nos Iau, Medi 28. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 10

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Medi 17

2.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Medi 24

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

Hydref 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 17: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Sylwch mai am **2.00 o'r gloch** y mae'r oedfa.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Medi 12: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 17: Cynhelir oedfa am 10.00 o'r gloch; a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Christopher Prew, Porthmadog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Medi 15: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 17: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Sion Aled Owen.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 17: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 17: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Medi 17

10.00 a.m. - Oedfa
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Christopher Prew

Medi 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 739: 10 Medi, 2017

Harvey ac Imra a ...?

Ni all ystadegau moel adrodd yr holl stori. Clywsom lawer am gorwyntoedd dros y pythefnos diwethaf; ond mae'n anodd amgyffred nerth y gwyntoedd 130 milltir yr awr a gaed yn anterth Corwynt Harvey a darodd ddinasoedd fel Houston yn Texas, a gwyntoedd hyd at 155 milltir yr awr Corwynt Imra sy'n bygwth Cuba a Florida ar hyn o bryd. Mae'n anodd hefyd amgyffred ystadegau ariannol megis y difrod o hyd at 190 biliwn o ddoleri a achoswyd gan Gorwynt Harvey. A sut allwn ddechrau meddwl am gynifer â phum miliwn o bobl yn gadael eu cartrefi yn Florida er mwyn dianc rhag Corwynt Imra?

Dyma'r math o ystadegau y daethom yn gyfarwydd â hwy dros y dyddiau diwethaf wrth i'r difrod a achoswyd gan y corwyntoedd yn y Caribî a'r Unol Daleithiau gael ei ddangos i ni ar y teledu ac yn y papurau newydd. Yr ystadegau mwyaf digalon wrth gwrs yw'r rhai sy'n cofnodi'r marwolaethau: tua 71 yn sgil Harvey ac o leiaf 24 yn sgil Imra. Y mae'n bosibl wrth gwrs nad dyna fydd yr ystadegau terfynol ac y bydd rhagor na hynny wedi eu lladd.

Mae'n amlwg fod y stormydd hyn yn ddychrynlyd, ac nid oes syndod ein bod yn cael clywed amdanynt. Ac o glywed amdanynt, mae'n siwr ein bod yn cydymdeimlo â'r bobl sy'n llawn braw ac ofn heddiw, y bobl sydd wedi dioddef colledion, a theuluoedd y bobl a laddwyd. Mae'n sicr y bydd llawer o weddio drostynt yn oedfaon ein capeli

a'n heglwysi heddiw. A da o beth fydd hynny. A daliwn i weddio dros bobl y Caribî a Chanolbarth America a'r Unol Daleithiau dros y dyddiau nesaf. Byddai'n dda gan filoedd lawer ohonynt wybod fod yna bobl yn eu cyflwyno bob dydd i ofal Duw Dad.

Yng nghanol yr holl sôn am Harvey ac Imra (a Jose a Katia a'u dilynod), ychydig iawn a glywyd ar y bwletinâu newyddion am y monswn a achosodd ddiffrod mawr yn India a Bangladesh a Nepal ychydig dros wythnos yn ôl. Fe ddylai hynny ein synnu o sylweddoli'r ystadegau: oddeutu 40 miliwn o bobl wedi eu heffeithio gan y llifogydd, a thros 1200 wedi eu lladd. Os yw ein cyfryngau newyddion yn rhoi llai o sylw iddynt hwy, does ond gobeithio na fydd ein heglwysi'n gwneud yr un peth. Gweddiwn drostynt hwythau yn eu galar a'u colled a'u hangen mawr.

Y mae'r difrod a achosodd Harvey ac Imra yn fawr. Nid amarch i'r rhai a ddiodeffodd yn eu sgil yw dweud y gellid disgwyl y byddai'r llifogydd yn India a Bangladesh a Nepal wedi cael mwy o sylw na hwy dros y dyddiau diwethaf. Ond nid felly y bu. Gwae ni os yw'r 1200 yn llai o stori am fod y bobl hynny yn Asia yn hytrach nag yn un o wledydd y Gorllewin.

Ie, gwae ni os oes ynom unrhyw duedd i feddwl fod bywyd unrhyw ddydd neu ddynes yn llai gwerthfawr na'i gilydd. Gweddiwn am y gras i barchu ac i werthfawrogi bywyd pob un byw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'O Dduw, rho dy farnedigaeth i'r brenin, a'th gyfiawnder i fab y brenin. Bydded iddo **BEIBL BYW** farnu dy bobl yn gyfiawn, a'th rai anghenus yn gywir. Doed y mynyddoedd â heddwch i'r bobl, a'r bryniau â chyfiawnder. Bydded iddo amddiffyn achos tlodion y bobl, a gwaredu'r rhai anghenus, a dryllio'r gorthrymwr ... Oherwydd y mae'n gwaredu'r anghenus pan lefa, a'r tlawd pan yw heb gynorthwyr. Y mae'n tostaru wrth y gwan a'r anghenus, ac yn gwaredu bywyd y tlodion. Y mae'n achub eu bywyd rhag trais a gorthrwm, ac y mae eu gwaed yn werthfawr yn ei olwg' (Salm 72:1-4; 12-14).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog a bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 11.100 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy. Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cymdeithas Llanberis

Bydd cyfarfodydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn ail ddechrau y mis hwn. A Ni lwyddwyd i gynnal y cyfarfodydd hyn y llynedd am na chafwyd Ysgrifennydd i wneud y trefniadau. Gan sylweddoli fod amryw wedi gweld colli'r Gymdeithas aeth Gareth Jones ati dros y mis diwethaf i drefnu cyfres o gyfarfodydd ar gyfer y tymor nesaf. Diolchwn iddo am hynny. Mae wedi llwyddo mewn byr amser i drefnu rhaglen lawn o hyn hyd fis Ebrill nesaf.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Medi 19. Bydd Hogia Bodwrog yn dod atom i gynnal noson. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

Bore Coffi

Cynhelir y Bore Coffi misol yn festri Capel Coch rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch, ddydd Mawrth, Medi 12 er budd Cronfa Adnoddau'r Capel.

Angladdau

Mr Dafydd Roberts

Cynhaliwyd angladd Mr Dafydd Tudor Roberts, 1 Dôl Eilian, Llanberis yn yr Amlogfa ym Mangor ddydd Llun, Awst 7 dan arweiniad y Gweinidog. Bu farw Mr Roberts yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli ddydd Sul, Gorffennaf 30, yn 92 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon yn Capel Coch, a chawsom ei gwmmi yn yr oedfaon bob bore Sul nes iddo fynd i'r ysbyty rai wythnosau'n ôl. Un o Dolwyddelan oedd Mr Roberts, a daeth i'r ardal hon oddeutu hanner canrif yn ôl, yn rheolwr y Co-op yn Neiniolen, lle bu'n gweithio hyd ei ymddeoliad. Roedd yn wr bonheddig, tawel a chymwynasgar, a bu'n gymydog da yn Stryd Turner cyn iddo symud i Ddôl Eilian yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i ferch Nerys a'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Miss Olwen Lewis

Bu farw Miss Olwen Lewis, gynt o 6 Stryd Bryn Owen, Rachub yng Nghartref Nyrzio Penisarwaun, yn 97 mlwydd oed ar Awst 17. Roedd yn aelod yng Nghapel Carmel, ac wedi cael gofal yn y Cartref ym Mhenisarwaun ers sawl blwyddyn. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Bangor ddydd Iau, Awst 24. Y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan oedd yn arwain y gwasanaeth. Cydymdeimlwn â'i theulu a'i chyfeillion yn eu colled.

Mrs Eirlys Williams

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Jenny Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen yn Ebeneser a Mynwent Machpela, Deiniolen ddydd Iau, Awst 31 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Mair Hughes oedd yr organydd.

Bu farw Mrs Williams yng Nghartref Nyrzio Penisarwaun ar Awst 23, yn 97 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â Jennifer, Hefin, Arthur, Meirion ac Euryn a'u teuluoedd yn eu colled.

Yr oedd Mrs Eirlys Williams yn ddiagon yn Ebeneser. Aelod o eglwys y Wesleaid yng nghapel Tabernacl oedd hi nes i'r achos hwnnw ddod i ben yn dilyn cau'r capel a chyfnod o gydaddoli wedyn rhwng aelodau Tabernacl a'r eglwys yng nghapel Disgwylfa. Wedi cau Disgwylfa hefyd, ymaelododd yn Ebeneser ac fe'i hetholwyd yn ddiagon yn fuan wedyn.

Bu'n weithgar ym mhob un o'r capeli hyn, a gwasanaethodd yn ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Rhoes o'i gorau i waith yr eglwys, yr Ysgol Sul, Dosbarth y Chwiorydd, Y Cymanfaoedd, Cymorth Cristnogol a'r Gymdeithas Undebol. Yr oedd yn wraig annwyl iawn, a chawsom lawer iawn o hwyl yn ogystal â bendith yn ei chwmmi. Bu'n gefnogol iawn i bob dim a ddigwyddai yn yr eglwys, a bu'n gefn mawr i bob gweinidog a gafodd y fraint o gydweithio â hi.

Bu'n ofalus iawn o'i diweddar briod Hywel trwy flynyddoedd o waeledd, a chafodd hithau ofal da y blynyddoedd diwethaf hyn ym Mhenisarwaun.

Mr Emrys Parry

Bu farw Mr Emrys Lloyd Parry, 9 Allt Ffrydlas, Bethesda yn Ysbyty Gwynedd yn 83 mlwydd oed, ar Awst 28.

Cydymdeimlwn â'i briod Phyllis, ei fab Philip, a'i ferch a'i fab yng nghyfraith Bethan a Gary, a'r holl deulu yn eu colled. Cynhaliwyd ei angladd yn Aml-ogfa Bangor ddydd Mawrth diwethaf, Medi 5.

Mrs Sally Roberts

Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mrs Sally Roberts, Lorne House, Llanberis yn Capel Coch a Mynwent Llanbeblig, Caernarfon ddydd Mercher diwethaf, Medi 6 dan arweiniad y Gweinidog. Mrs Bethan Holding oedd yr organydd. Bu farw Mrs Roberts yng Nghartref Y Foelas, Llanrug yn 93 mlwydd oed, ar Awst 23. Cydymdeimlwn â Maira, Brian